22 Hydref 2009

Prifathrawes i gymryd awenau
Pwyllgor Gwaith, Eisteddfod Eryri 2012

Mae Prifathrawes ar ddwy ysgol yng Ngwynedd wedi ei hethol yn Gadeirydd Pwyllgor Gwaith, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, 2012. Mae Meriel Parry yn Brifathrawes Ysgolion Tregarth a Bodfeirig a bydd yn cymryd yr awennau fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith yn y cyfarfod nesaf ar y 18fed o Dachwedd.

Mae Meriel wedi ymwneud â'r Urdd ers blynyddoedd. Mae hi'n Ysgrifenydd Panel Canolog Cerdd Eisteddfod yr Urdd ac yn Is-Gadeirydd y pwyllgor rhanbarth.

Dywed Meriel, "Mae hi'n anrhydedd fawr i gael bod yn Gadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Eryri ac rwy'n edrych ymlaen at gydweithio gyda thrigolion yr ardal yn gyfan i sicrhau Eisteddfod lwyddianus iawn. Rwy'n ffyddiog y bydd yr Eisteddfod hon yn dilyn ôl troed Eisteddfodau'r gorfennol ac y bydd hi'n ŵyl i'w chofio."

Is Gadeirydd y Pwyllgor Gwaith fydd Gwyn Morris gydag Anwen Bumby ac Arwyn Owen Hughes yn Ysgrifenyddion. Richard Morris Jones fydd y Trysorydd.

Gyda'r Pwyllgor Gwaith wedi ffurfio, yr orchwyl gyntaf fydd gwahodd ceisiadau gan gymunedau neu unigolion i gynnig tir ar gyfer cynnal yr Eisteddfod.

Meddai Aled Siôn, Cyfarwyddwr Eisteddfod yr Urdd, "Rwy'n ddiolchgar iawn i Meriel a'r tîm am eu brwdfrydedd ac yn edrych ymlaen yn eiddgar i gydweithio â hwy i sicrhau Eisteddfod fythgofiadwy yn Eryri yn 2012.

"Mae canfod safle da yn allweddol i lwyddiant unrhyw Eisteddfod ac fe hoffwn wahodd ceisiadau gan unigolion neu gymunedau sydd â thir addas ar gyfer cynnal yr ŵyl yn 2012.

"Mae cyfres o ffactorau i'w ystyried cyn penderfynu ar safle megis tua 70 acer o dir gwastad, system drafnidiaeth, cyflenwad dŵr a barn yr awdurdodau a'r gwasanaethau argyfwng i enwi dim ond rhai. Edrychwn ymlaen at dderbyn ceisiadau ac at gydweithio gyda trigolion Gwynedd at y dyfodol."

Diwedd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Non Tudur Williams ar nontudur@urdd.org neu 07968 446369

NODIADAU I OLYGYDDION

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant a ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd dros 50,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.

22 October 2009

Headteacher to chair Eryri 2012's Executive Committee

A headteacher of two primary schools in Gwynedd has been elected as Chair of the Executive Committee of the Urdd National Eisteddfod, Eryri 2012. Meriel Parry is headteacher at Tregarth and Bodfeirig Schools and will be taking up her new role at the next Executive Committee meeting on the 18th of November.

Meriel has enjoyed a long association with the Urdd. She is Secretary of the Urdd National Eisteddfod's Central Music Panel and Vice-Chair of the regional committee.

Meriel said, "It's a great honour to be elected as Chair of the Eryri Urdd National Eisteddfod's Executive Committee and I look forward to working with volunteers from across the area to ensure a successful Eisteddfod. I'm confident this Eisteddfod will follow in the footsteps of past Eisteddfodau and will be a festival to remember."

Gwyn Morris will be the Committee's Vice Chair with Anwen Bumby and Arwyn Owen Hughes as Secretaries. Richard Morris Jones takes up the role of Treasurer.

With the Executive Committee now in place, its first responsibility will be to invite applications from communities or individuals with suitable land to host the Eisteddfod.

Aled Siôn, Director of the Urdd National Eisteddfod said, "I'm very grateful to Meriel and the team for their enthusiasm and I look forward to working with them to ensure an unforgettable Eisteddfod in Eryri in 2012.

“Finding a good location for the Eisteddfod is vital and I’d like to extend an invitation to any individual or community with suitable land to host the Eisteddfod to contact us and make an application.

“There are a number of factors to consider when deciding on the location such as 70 acres of good, level land, the transport system and water supply. We also take into accounts comments from the emergency services. We look forward to receiving the applications and to working with the local communities.”

Ends

For further information, please contact Non Tudur Williams:
nontudur@urdd.org or 07968 446369

NOTES TO EDITORS

- Urdd Gobaith Cymru is Wales’ Largest Youth Organisation
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years
- Urdd Gobaith Cymru has over 51,000 members between 8 and 25 years old
- The aim of the Urdd is to give the children and young people of Wales an opportunity to live their lives through the medium of Welsh, developing confidence and respect for each other and the people of the world
- Urdd activities include tours and visits, sports, eisteddfod, magazines, adrannau and aelwydydd and residential centres